# Cenn@d

MEHEFIN 7 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 119


## Tystio i Grist ar faes Eisteddfod yr Urdd

Yn ystod yr wythnos a aeth heibio cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd lwyddiannus a chofiadwy iawn yn Llanymddyfri. Cafwyd trefniadau graenus, tywydd godidog a chystadlu brwd, a theilyngdod yn y prif gystadlaethau. Dechreuodd y cyfan yng nghapel Annibynwyr y dref gyda chriw o blant ysgolion Sul y sir yn arwain, a hynny'n cael ei ddilyn gan sioe yn cynnwys 900 o blant yn yr awyr agored ar faes yr Eisteddfod.

Yn ôl yr arfer roedd pabell ar y maes o dan nawdd Cytûn, Cyngor Ysgolion Sul a Chymorth Cristnogol. Braf oedd croesawu ARocha, Plant Dewi a Byddin yr Iachawdwriaeth ynghyd â nifer o wirfoddolwyr o eglwysi ac ysgolion Sul y sir i gynnal gweithgareddau i blant. Roedd nifer o ysgolion Sul hefyd wedi creu hysbysfyrddau yn tystio i'w gweithgaredd yn lleol.

Dros lawr y babell roedd naw bwrdd – pob un â gweithgaredd gwahanol, ac yn ystod yr wythnos croesawyd rhai miloedd o blant i mewn i fwynhau'r gweithgareddau. Mewn cyfnod lle mae ysgolion Sul yn brin o ran nifer ac yn fychan o ran maint, mor bwysig yw gofalu bod llais a chroeso'r Efengyl i'w clywed yn y gofod cyhoeddus fel maes y brifwyl. Diolch am groeso twymgalon Sir Gâr, a llongyfarchiadau i'r holl drefnwyr a gwirfoddolwyr am eu gwaith.




Bwrlwm plant yn y stondin yn mwynhau'r gweithgareddau



Gweithgareddau amrywiol



Plant capel y Priordy, Caerfyrddin, wedi creu capel allan o Lego – sylwer ar wallt coch y gweinidog, Beti Wyn James



Dau o ffrindiau Mr Urdd: Andrew Sully, pennaeth Cymorth Cristnogol, a Siôn Brynach, Prif Weithredwr Cytûn




Deio o Bwllheli yn darllen Neges Ewyllys Da yr Urdd ar ein stondin – roedd yn un o'r criw fu'n paratoi'r neges


*(parhad ar y dudalen nesaf)*



Gweithio drwy argyfwng i aildanio gweinidogaeth i blant – yn Hwngari **Tudalen 3**

Eglwysi yw Archarwyr Datblygiad Rhyngwladol **Tudalen 5**

O'r galon Ffydd sydd yn aros **Tudalen 7**

*Tystio i Grist ar faes Eisteddfod yr Urdd*
*(parhad o dudalen 1)*



Catrin ac Ifan Roberts yn mwynhau sgwrs gyda Densil Morgan a Jeff Williams



Tri Aled – Edwards, Davies a Jones!



Sian Elin, Beti Wyn ac Elin yn trefnu'r crefftau, gyda Dewi Myrddin Hughes ac Emyr Evans yn y cefndir



Guto Prys ap Gwynfor gyda Mabon, yng nghwmni Tom Defis, un o Lywyddion Anrhydeddus yr eisteddfod eleni

# Bywyd yn Iesu: Y Wir Winwydden

Bydd llawer o ddarllenwyr *Cenn@d* yn gwybod ei fod wedi dod yn arferiad gennym i lansio ein thema flynyddol ar gyfer Gwaith Chwiorydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn y Sasiynau Cenhadol, ac eleni roedd yn bleser gwneud hynny yn y sasiynau a gynhaliwyd ym Machynlleth ac Aberystwyth. Y thema ar gyfer 2023/24 yw **Bywyd yn Iesu: Y Wir Winwydden**, ac mae'n seiliedig ar yr adnodau yn Ioan 15.

Roedd y syniad gwreiddiol y tu ôl i ddewis thema yn driphlyg: i hybu undod rhwng ein grwpiau chwiorydd ledled Cymru; i annog astudio rhan benodol o'r Ysgrythur; ac i greu ffocws ar gyfer ein gweithgareddau. Er mwyn ein helpu i wneud hyn, rydym hefyd wedi bod yn cynhyrchu llyfr adnoddau.

Mae'r llyfr thema eto eleni yn cynnwys llawer o'r erthyglau arferol. Ceir amlinelliad o wasanaeth cyflawn sy'n edrych ar sut gall y Cristion ddwyn ffrwyth. Dilynir hyn gan gyfres o astudiaethau Beiblaidd sy'n ein helpu i ystyried yn fanwl yr adnodau yn Ioan 15:1–8.

Gwyddom fod yr Arglwydd Iesu yn aml yn defnyddio damhegion neu ddarluniau i helpu ei ddisgyblion i ddeall ei ddysgeidiaeth yn well. Yn y darlun o'r 'winwydden', mae Iesu'n cyfleu mewn ffordd syml y dirgelwch rhyfeddol hwn, sef bod pobl 'farw' yn derbyn ei fywyd, yn cael eu cynnal gan y bywyd hwnnw sydd yn y winwydden, ac yn ein galluogi i ddwyn ffrwyth er gogoneddu'r Tad.

Ein gobaith a'n gweddi yw y bydd astudio'r adnodau hyn yn ein hannog ni i gyd i aros yn agos at y Gwaredwr, gan dderbyn ei fywyd trwy'r Ysbryd Glân.

Mae'r llyfr thema hefyd yn cynnwys tystiolaethau personol i'n hannog ac erthyglau eraill i'n helpu i agosáu at yr Arglwydd. Rhan bwysig iawn o'r llyfr adnoddau yw'r adroddiadau am y prosiectau cenhadol. Dyma'r prosiectau y mae ein casgliad cenhadol blynyddol yn eu cefnogi, ac eleni mae gennym hefyd ddiweddariad am GOLUD, ein prosiect dementia. Yn ogystal, fe gewch rai syniadau ar gyfer gwaith llaw oherwydd gwyddom fod llawer ohonoch yn mwynhau gwau a gwnïo i gefnogi elusennau.

Os nad oeddech yn y sasiynau, gallwch gael copi o'r llyfr thema drwy gysylltu ag Eirian Roberts yn swyddfa'r Bala: eirian.roberts@ebcpcw.cymru, neu trwy gynrychiolydd eich Henaduriaeth. Mae Carys Davies (Gogledd Cymru) a minnau hefyd ar gael i siarad mewn cyfarfodydd neu grwpiau, neu i'ch helpu i drefnu cyfarfod yn seiliedig ar y thema, a byddem wrth ein bodd yn dod atoch yn y flwyddyn i ddod.

Gweddïwch gyda ni, os gwelwch yn dda, y bydd y llyfr thema a thestun y thema ei hun yn arfau defnyddiol fel y byddwn, drwyddynt, yn agosáu at Iesu ac yn derbyn ei fywyd a'i gariad – bywyd a chariad i'w rhannu gyda ffrindiau, teulu, cymdogion, a'n brodyr a chwiorydd yng Nghrist o amgylch y byd.

*Sarah Morris*
*Cydlynydd Dorcas De Cymru, EBC*



# Gweithio drwy argyfwng i aildanio gweinidogaeth i blant – yn Hwngari

**Aled Davies sy'n rhannu ei argraffiadau o gynhadledd ar waith plant yn Hwngari yn ddiweddar**

Bob tair blynedd mae cynhadledd yr ECCE (European Conference on Christian Education) yn cyfarfod yn rhywle ar gyfandir Ewrop i drafod gweinidogaeth i blant. Eleni, ar ddechrau mis Mai, canolfan ar lan llyn Balaton yn Hwngari oedd y man cyfarfod, lle daeth tua 60 o gynrychiolwyr o 16 o wledydd ynghyd am wythnos. Yn Berlin yr oedd y gynhadledd yn 2019, ac wedi colli blwyddyn dros gyfnod y clo, daeth cyfle dros y ddwy flynedd ddilynol i gyfarfod dros Zoom.

Wrth gynllunio ar gyfer y gynhadledd eleni, yr un oedd y gri o bob gwlad – yr angen i gael trafodaeth ddeallus ar sut i ddelio â'r argyfwng ym maes cenhadaeth a gweinidogaeth i blant, a sut orau i aildanio ac ailgydio mewn gwaith sy'n berthnasol ac yn gyfoes. Yr un oedd yr hanes yn gyffredinol o bob un gwlad: yn dilyn cyfnod y pandemig a'r newid cymdeithasol yn sgil hynny, gwelwyd lleihad yn nifer y teuluoedd a phlant sy'n mynychu gwasanaethau ar y Sul yn ogystal â gweithgaredd plant. Nodwyd bod nifer y bedyddiadau wedi gostwng, a bod llawer bellach wedi dewis ymbellhau oddi wrth yr eglwys. Dewiswyd 'Tyfu trwy'r argyfwng er mwyn aildanio'n gweinidogaeth i blant' fel thema ar gyfer yr wythnos, gan roi cyfle i'n herio i ailddychmygu a breuddwydio am y posibiliadau!

Saesneg oedd prif iaith y gynhadledd, gyda chyfieithu llawer o'r seminarau i'r Ffraneg a'r Almaeneg hefyd. Un elfen bwysig oedd ceisio dod i ddeall rhywfaint am y sefyllfa leol yn Hwngari, a chafwyd noson yng nghwmni'r Archesgob Lwtheraidd, a rannodd am waith yr eglwysi yn y wlad a'r cydweithio rhwng y gwahanol draddodiadau Cristnogol.

Bob bore, wedi cyfnod o addoliad cafwyd astudiaeth Feiblaidd greadigol, a hynny




Y rhai fynychodd y gynhadledd




Aled Davies wrth y bwrdd cofrestru

dan arweiniad y storïwr Bob Hartman, awdur llawer o lyfrau stori Beiblaidd i blant, gan gynnwys cynllun Agor y Llyfr. Mae Cyhoeddiadau'r Gair wedi cyfieithu chwech o lyfrau Bob dros y blynyddoedd, gan gynnwys *Beibl Newydd y Storïwr* a *Beibl Newydd y Teulu*. A ninnau wedi ein lleoli ar lan llyn, aeth â ni i faes mentro mewn ffydd a bod yn barod i daflu ein rhwydi i'r ochr draw, ufudd-dod yn hanes galw'r disgyblion, pwysigrwydd cadw ein golwg ar Iesu wrth gofio am y storm ar y llyn, a diffyg ffydd Pedr wrth gerdded at Iesu.

Cafwyd darlithoedd ar fywyd teuluol a lletygarwch, diogelwch ac amddiffyn plant, a mentrau cenhadol newydd. Roedd dewis o 14 gweithdy, gyda chynrychiolwyr yn rhannu syniadau ac arfer da o fewn eu gwledydd. Dros y blynyddoedd rhannwyd llawer gennym ni fel grŵp o Brydain, a braf gweld gwledydd eraill erbyn hyn wedi mabwysiadu llawer o'r syniadau hynny. Bob tro hefyd bydd gennym 'farchnad', lle mae cyfle i bawb arddangos adnoddau cynhenid o'u gwlad. Bydd llawer yn elwa o'r cyfle i rannu a chyfieithu'r cynnyrch hwn bob tro byddwn yn cyfarfod.

Roeddem yn cyfarfod mewn grwpiau bychain hefyd i drafod, gan glywed lleisiau gwahanol o dros Ewrop. Un uchafbwynt personol i mi oedd y cyfle i gysylltu â Vitalli, gweinidog yn Wcráin oedd gyda ni yn Berlin bedair blynedd yn ôl, ond yn methu gadael ei wlad i ymuno â ni y tro yma. Soniodd yntau fod gwaith yr eglwysi'n parhau, a bod ei grŵp ieuenctid ef wedi dyblu i dros 50, er gwaetha'r ffaith fod nifer yr oedolion wedi haneru wrth i bobl ffoi a chael eu galw i wasanaethu yn y fyddin. Cafwyd cyfle i gydsefyll a gweddïo dros heddwch yn y wlad, a phawb dan emosiwn wrth sgwrsio â Vitalli yn Kyiv.

Bu cyfle i ymlacio a chymdeithasu hefyd. Cawsom fynd am fordaith ar draws y llyn, a chroesawu dawnswyr a band gwerin atom gyda'r nos. Braf oedd gweld pawb yn uno yn y canu a'r dawnsio.

Fe fydd ambell un yn holi a oes gwerth mewn cynhadledd fel hon. Weithiau, mae'n anodd rhoi mewn brawddegau beth oedd y budd neu'r gwerth o fynychu, lle nad yw hynny'n arwain yn uniongyrchol at fabwysiadu cynllun neu adnodd newydd. Yn fy hanes i, mae'n debyg mai'r prif ysgogiad i fod yn rhan o'r gynhadledd oedd cael cwmni a chymdeithas pobl yn yr un maes gwaith. Wrth ddechrau adfyfyrio a dadbacio'r oll a welwyd ac a glywyd, mae'n debyg mai anogaeth a symbyliad i ddyfalbarhau oedd y budd mwyaf. Wedi tair blynedd o fod yn dyst i waith plant yn crebachu ac yn dirwyn i ben mewn sawl achos, bu'n ysbrydoliaeth unwaith eto i gael ein hatgoffa pwy bia'r gwaith, a pham rydym yn ymroi i'r weinidogaeth arbennig hon.

Pa effaith gafodd yr amser ar fy ngwaith yng Nghymru? Fe fydd ail erthygl yn *Cenn@d* yn fuan yn gyfle imi geisio rhannu ychydig ar hynny. Eisoes mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer 2026, wedi i ni dderbyn gwahoddiad gan Gyngor Eglwysi Genefa yn y Swistir i ymweld â dinas John Calfin a'r diwygiad Protestannaidd. Yn y cyfnod rhwng cynadleddau Berlin a Balaton profwyd effaith pandemig byd-eang, argyfwng economaidd a rhyfela ar gyfandir Ewrop. Tybed beth fydd ein hanes dros y tair blynedd nesaf?

# Wythnos Cymorth Cristnogol Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch



Cynghorwyr Cyngor Tref Llanbed yn Oedfa'r Maer yng Nghapel Shiloh

Yr oedfa fore Sul, 14 Mai, yn Eglwys St Thomas, Llanbed, roddodd gychwyn i weithgareddau eleni. Arweiniwyd gan y Parchedig Flis Randall, gweinidog Eglwys St Thomas, gyda chyfraniadau gan nifer o'r aelodau. Daeth cynulleidfa dda i wrando ar ei neges o'r Efengylau – Mathew 13 ac Ioan 12. Cyfeiriodd at effeithiau dinistriol Corwynt Freddy ar wledydd megis Malawi a gwaith dyngarol Cymorth Cristnogol yn y wlad honno. Lladdwyd llawer gan lifogydd enbyd a difethwyd cymaint o gnydau, megis rhai teulu Esther Saizi. Cafwyd paned a chacen wedi'r oedfa gan ddiolch i bawb am gefnogi.

Yn y prynhawn cynhaliwyd Oedfa'r Maer yng Nghapel Shiloh, Llanbed, dan arweiniad y Parchedig Ddr D. Densil Morgan, Caplan y Maer. Roedd yn nodi dechrau blwyddyn y Cynghorydd Rhys Bebb Jones a Mrs Shân Jones yn Faer a Maeres Llanbed. Daeth y darlleniadau o Jeremeia 29:1–7, 10–14; Mathew 5:13–16 ac 1 Timotheus 2:1–2, a'r neges yn pwysleisio pa mor ganolog yw'r ffydd Gristnogol yn ein bywydau heddiw.

Dymuniad y Maer a'r Faeres a Chyngor Tref Llanbed oedd bod y casgliad yn mynd at Apêl Wythnos Cymorth Cristnogol Pwyllgor Llanbed a'r Cylch.

Yr un diwrnod, cynhaliwyd taith gerdded noddedig gan aelodau Capeli Undodiaid Aeron Teifi. Trefnwyd taith hamddenol o ganol Aberaeron ar hyd yr hen reilffordd i Lanerchaeron ac yn ôl, gyda seibiant am baned a chacen hanner ffordd. Bu'n gyfle am glonc a chymdeithasu wrth godi arian tuag at Gymorth Cristnogol.

Eglwysi Plwyf Pencarreg a Chapel Bethel, Parc-y-rhos, oedd yn gyfrifol am y bore coffi a gynhaliwyd yng Nghanolfan Pentref Cwm-ann fore Llun, 15 Mai. Daeth tyrfa o bell ac agos yno i gymdeithasu a chefnogi dros baned a blasu'r dewis di-ben-draw o gacennau. Trefnwyd stondin gwerthu cacennau a phlanhigion, raffl a chystadleuaeth dyfalu pwysau'r gacen.

Tro Capel Brondeifi oedd croesawu'r byd a'r betws am 'Frecwast Mawr' yn festri Brondeifi fore Iau, 18 Mai. Roedd y selsig, y bacwn, yr wyau a'r ffa pob, ynghyd â'r tost a'r marmalêd, y te a'r coffi, yn ddigon i fodloni'r rhai mwyaf llwglyd. Roedd ffrwythau, iogwrt a sudd ar gael i'r rhai oedd eisiau brecwast â llai o galorïau! Dechreuodd y coginio am 7 y bore dan arweiniad Delyth Jones (Y Pantri) a'i merched, Meinir a Meleri, a thîm profiadol o wirfoddolwyr. Trefnwyd raffl a dyfalu nifer y pys mewn potel. Diolch i'r Parchedig Wyn Thomas, Gweinidog Capel Brondeifi, a'r aelodau am y 'Brecwast Mawr' i gefnogi Cymorth Cristnogol.

I gloi wythnos brysur o weithgareddau yn Llanbed a'r Cylch, cynhaliwyd bore coffi yn Eglwys St Pedr, Llanbed, fore Sadwrn, 20 Mai. Yn ychwanegol at hynny, cynhaliwyd gweithgareddau eraill ym Mai i gefnogi Cymorth Cristnogol. Cafwyd taith gerdded noddedig a drefnwyd gan Gapel Bethel, Silian, brynhawn Sul, 28 Mai, yn rhan o weithgareddau Eglwysi Cylch Bedyddwyr Gogledd Teifi er budd Cymorth Cristnogol. Trefnwyd hefyd fod blychau casglu arian yn cael eu gosod yn nifer o siopau Llanbed a Llanybydder gydol mis Mai i dderbyn rhoddion tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Dymuna Twynog Davies ar ran Pwyllgor Cymorth Cristnogol Llanbed a'r Cylch ddiolch i bob un sydd wedi trefnu gweithgareddau a chefnogi Cymorth Cristnogol. Mae'r gweithgareddau wedi codi dros £4,000 hyd yn hyn, ac mae mwy o gyfraniadau o hyd i'w derbyn tuag at Gymorth Cristnogol.

Da iawn, bobl Llanbed a'r Cylch, a diolch o galon am eich caredigrwydd.

*Rhys Bebb Jones*
*ar ran Pwyllgor Llanbed a'r Cylch*

## GOBAITH MÔN (GM)

## SWYDD GWAITH IEUENCTID CRISTNOGOL

Elusen Gristnogol yw Gobaith Môn; fe'i sefydlwyd er mwyn addysgu pobl ifanc Môn am yr Arglwydd Iesu Grist. Hyd yma mae`r gwaith wedi cael ei ffocysu ar y pum ysgol uwchradd ym Môn. Yn ogystal, mae gan weithwyr Gobaith Môn rôl bwysig yn cefnogi gwaith ieuenctid ymhlith yr eglwysi gwahanol ar yr ynys.

### PRIF DDYLETSWYDDAU:

- Paratoi ac arwain gwasanaethau Cristnogol o fewn yr ysgolion.
- Paratoi a chyflwyno gwersi ABACh (Addysg Bersonol a Chymdeithasol), sy'n hyrwyddo gwerthoedd a rhinweddau Cristnogol.
- Cefnogi a chalonogi'r gwan a'r bregus o fewn yr ysgolion.
- Trefnu cyfarfodydd sy'n dod â phobl ifanc, o eglwysi amrywiol, at ei gilydd.
- Cefnogi ymdrechion yr eglwysi i gyrraedd mwy o bobl ifanc.

### PRIF OFYNION:

- Cristion brwdfrydig ac ymroddedig, gyda phrofiad o waith ieuenctid.
- Person sy'n gallu gweithio yn annibynnol, efo awydd cryf i rannu'r gwirioneddau Cristnogol o fewn cyd-destun ysgol.
- Yn ddwyieithog, neu'n gweithio tuag at hynny.
- Person sy'n hyderus wrth siarad yn gyhoeddus.
- Yn hyderus gyda gwaith cyfrifiadurol a'r cyfryngau cymdeithasol.
- Ar gael i ddechrau'r gwaith ar Medi 1af 2023.

Bydd y person a benodir yn cymryd lle'r arweinydd tra mae hi ar gyfnod mamolaeth. Bydd y cytundeb cyntaf am 6 mis, gyda golwg ar apwyntiad parhaol. Mae'r swydd yn golygu
32 awr yr wythnos o waith.

Ebostiwch eich CV a llythyr cais at
Andre Rudolph:
shearease@hotmail.com
a hefyd at Eirwyn Vaughan:
tomfychan@gmail.com.

Bydd y dyddiad cau ar 22/06/23, ac rydym yn gobeithio cyfweld yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Gorffennaf. Am unrhyw wybodaeth arall, gan gynnwys y cyflog, cysylltwch efo Andre Rudolph drwy'r ebost uchod, neu gallwch ei ffonio: 07789260811.

# Eglwysi yw Archarwyr Datblygiad Rhyngwladol

## Gan Ruth Valerio, Cyfarwyddwr Eiriolaeth a Dylanwadu Rhyngwladol Tearfund
## Cyfieithiad gan Cynan Llwyd, Pennaeth Tearfund Cymru

**Moyn rhoi i achosion elusennol tramor, ond ddim yn siŵr beth yw'r ffordd orau? Buddsoddwch yn yr eglwys leol, meddai Ruth Valerio. Nhw yw archarwyr datblygiad rhyngwladol – a dyma'r ffigyrau sy'n profi hyn.**



Llun: Tearfund

Trwy weithio i Tearfund mae gennyf olwg breintiedig o'r eglwys ryngwladol. Ond, rai wythnosau yn ôl, dangosodd astudiaeth pa mor fuddiol y gall eglwys fod i'w chymuned leol.

Mae'r Eglwys mewn man i ysbrydoli newid sy'n trawsnewid cymunedau ac yn grymuso pobl i ffynnu. Mae gan yr Eglwys y potensial i helpu pobl i gael eu rhyddhau o dlodi – tlodi ysbrydol a chorfforol. Yn rhyngwladol mae'r Eglwys yn rymus pan ddown at ddatblygiad rhyngwladol – mae'r Eglwys mewn man arbennig i daclo rhai o argyfyngau mwyaf y byd.

**Eglwys ymarferol**

Yn ddiweddar siaradodd ymchwilwyr â miloedd o bobl o Rwanda, Sierra Leone, Tanzania a Zimbabwe. Darganfuwyd bod buddsoddi mewn eglwysi lleol yn ffordd gost-effeithiol o helpu cymunedau i'w codi eu hunain allan o dlodi.

Darganfu'r ymchwil yma fod pob £1 sy'n cael ei buddsoddi yn yr eglwys leol mewn gwledydd incwm isel yn dod â £28 o werth cymunedol. Dyna ganlyniad anhygoel! Yn enwedig wrth ystyried ein bod ni'n sôn am fywydau pobl yn rhai o ardaloedd tlotaf y byd.

**Eglwys sy'n llawn pwrpas**

Trwy brosiectau sy'n cael eu rhedeg gan eglwysi lleol, mae'r adroddiad diweddar hefyd yn dangos trawsnewid ac effaith amlwg. Mae gan deuluoedd ddigon o fwyd i'w fwyta wedi iddyn nhw ddysgu technegau ffermio newydd. Mae plant yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd bod eu rhieni'n gallu ennill bywoliaeth. Mae cymunedau yn derbyn hyfforddiant ar sut i redeg grwpiau cynilo, yn cael addysg fel eu bod yn gallu adeiladu canolfannau iechyd a chronfeydd dŵr glân.

Mae merched a gwragedd yn cael eu rhyddhau o orfod cerdded milltiroedd y dydd i gasglu dŵr.

Mae yna newidiadau eraill hefyd, sy'n dal yr un mor bwysig.

Mae pobl yn y cymunedau lle mae'r eglwysi yn gweithio yn adrodd bod gan y cymunedau fwy o obaith a mwy o ddygnwch. Mae gwaith heddwch wedi adfer perthnasau o fewn teuluoedd a rhwng cymdogion sydd, yn ei dro, wedi creu amgylchedd mwy diogel sy'n hybu twf economaidd.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr effeithiau hyn yn bellgyrhaeddol ac yn cyffwrdd y gymdeithas ehangach. Gwelodd pobl na fu'n rhan uniongyrchol o raglen eglwys welliannau ym mhob ffordd, bron, y gellid mesur llesiant.

**Eglwys bwerus**

Grym yr eglwys yw ei bod hi'n gallu ymateb mewn modd gwahanol iawn i'r modd y mae cymorth dyngarol fel arfer yn gweithio.

Mae'r Eglwys, yn ei hanfod, yn fan o drawsnewidiad llwyr. Yn hytrach nag ymateb i'r symptomau yn unig – tlodi, newyn, gwrthdaro, diffyg adnoddau meddygol – trwy ddarparu bwyd neu ganolfannau iechyd, er enghraifft, mae'r Eglwys yn gallu cynnig newid go iawn, newid llwyr a hirdymor. Grymusir pobl i ganfod atebion ymarferol eu hunain.

Canlyniad hyn yw newid materol a newid o ran gobaith – newid sy'n ysbrydoli eraill ac sy'n trawsnewid cymunedau mewn modd sy'n ddyrchafol, yn gynaliadwy ac yn adfer urddas. Newid sy'n dod â digon o fwyd. Canolfan iechyd newydd. Ysgol. Dulliau newydd o greu incwm.

**Potensial i dyfu**

Mae Beatrice yn byw yn Rwanda ac yn fam i bedwar. Trwy weithio â'i heglwys lleol mae'n dweud ei bod hi wedi ei chyffwrdd gan y gwersi trawsnewidiol – er enghraifft, asesu ei hanghenion a photensial yr adnoddau sydd yn y gymuned: "Ry ni'n sylweddoli bod cydweithio'n ein helpu. Mi wnes i ddechrau meddwl am gynllun i ddatblygu fy nheulu ac ymuno â grŵp hunan-gymorth. Dechreuon ni arbed arian bob wythnos mewn grŵp o 20 o aelodau. Roedd hi'n anodd i ddechrau, ond roedd eraill yn fy annog."

Yn y pen draw, gyda llog gan y grŵp hunan-gymorth yr oedd yn rhan ohono, dechreuodd Beatrice fusnes bach ei hun yn gwerthu bwyd yn y farchnad. Galluogodd hyn hi i brynu gafr a buwch, a dechrau rhentu tir er mwyn plannu reis.

"Eleni, rwy'n disgwyl cynhaeaf braf. Rwy'n teimlo'n hyderus oherwydd dwi'n gallu cefnogi eraill ac rwy'n ddynes â pharch yn y gymuned ac yn fy nheulu. Mae gennym ni ddigon o fwyd i fwydo'n plant ac i dalu eu ffioedd ysgol. Dydyn ni ddim bellach yn gweithio i unrhyw un arall gan fod gennym ein busnes ein hunain. Gallwn gyfrannu pan fo angen i roi cymorth i bobl fregus. Mae gennyf gynllun i ddatblygu fy musnes ac ennill rhagor o arian yn y dyfodol. Mae gennyf deulu hapus."

Dyma drawsnewidiad llwyr iddi ac i'r gymuned.

A'r eglwys sydd yn y canol, yn dod â'r newydd da.

*Gallwch gyfrannu at a chefnogi gwaith Tearfund trwy ymweld â'r tudalen [https://www.justgiving.com/page/cycleclubdetearfund](https://www.justgiving.com/page/cycleclubdetearfund) neu sganio'r cod QR yma*

*Bu Cynan a chefnogwyr eraill Tearfund yn beicio'r Carten100 gan godi arian tuag at waith CCT (Church and Community Transformation) Tearfund.*

**ADNABOD**

**Cymeriadau'r Hen Destament**

**ABRAHAM**

**Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.**

## 27 Cwestiynau Abraham (Rhan 1)
## Darllen: Genesis 18:22–33

### (Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 108)

Mae'r adnodau hyn yn gyfarwydd i lawer ohonoch, rwy'n tybio, ac yn wir maent yn adnodau yr wyf wedi dychwelyd atynt droeon wrth bregethu neu arwain seiat. Yn gyffredinol rwyf wedi canolbwyntio ar 'eiriolaeth Abraham', ac mi edrychwn ar hynny yr wythnos nesaf. Y tro hwn, rwyf am ganolbwyntio ar gymhelliad Abraham yn fwy cyffredinol, yn benodol, ei ymgais i ddeall gweithgarwch Duw, a hynny'n dilyn y ffaith i'r Arglwydd rannu ag ef yn adnodau 17–21 ei fod yn mynd i olwg Sodom a Gomorra.

Er nad wyf yn cofio'n dda iawn, rwy'n amau fod yr hyn a ddysgwyd imi am y digwyddiad hwn, fel digwyddiadau eraill yn yr Hen Destament, yn y gwersi Addysg Grefyddol yn yr ysgol yn arwynebol a rhwydd iawn. Roedd esbonio hanes y dinasoedd yma yn syrthio o fewn y diffiniad yna o ddealltwriaeth gyntefig o Dduw, a hynny wedi ei sylfaenu ar gred fod y datguddiad o Dduw yn rhywbeth sy'n oddrychol, hynny yw, nid datguddiad yn gymaint â chanfyddiad. Dros y blynyddoedd a'r canrifoedd mae pwy yw Duw yn newid wrth i ni ganfod mwy, deall yn well. Fel arfer, mae hyn yn gorffen ag ymadrodd tebyg i – nawr mae ein canfyddiad o Dduw wedi ei drawsnewid gyda dyfodiad Iesu a dysgeidiaeth y Testament Newydd. Dethol iawn yw lladmeryddion y ddamcaniaeth yma am ddysgeidiaeth y Testament Newydd, gan osgoi geiriau Iesu mewn mannau, fel yr esboniad ar ddameg y chwyn yn Mathew 13:41–2 a dameg y rhwyd yn Mathew 13:49–50. Felly, hefyd ddysgeidiaeth yr apostolion, ac yna'r datguddiad y mae Ioan, y disgybl annwyl, yn ei rannu. Yn llyfr y Datguddiad 19:1–2, yn dilyn golwg ar y modd y mae Duw yn gweinyddu barn gyfiawn ar ddiwedd amser, clywir tyrfa'r nefoedd yn moli: 'yn dweud: "Halelwia! Eiddo ein Duw ni y waredigaeth a'r gogoniant a'r gallu, oherwydd gwir a chyfiawn yw ei farnedigaethau ef".'

O ddod at adnodau heddiw, sylwch ar yr hyn y mae Abraham yn ei gyffesu am Dduw yn adnod 25, 'Na ato Duw! Oni wna Barnwr yr holl ddaear farn?' Gwyddom yn dda fod y datguddiad o Dduw yn rhywbeth graddol yn y Beibl, a hefyd ei fod yn cyrraedd ei benllanw yn yr Un a gyhoeddodd, 'Y mae'r sawl sydd wedi fy ngweld i wedi gweld y Tad' (Ioan 14:9). I'r awdur at yr Hebreaid, 'yn y dyddiau olaf hyn llefarodd wrthym ni mewn Mab. ... Ef yw disgleirdeb gogoniant Duw, ac y mae stamp ei sylwedd ef arno' (Hebreaid 1:1,3). Rydym yn deall hefyd fod yna lawer yn yr Hen Destament sy'n cael ei ddileu gyda dyfodiad Iesu; er enghraifft, mae'r gyfraith a'r deddfau seremonïol, system aberthau a gweinyddiad y deml yn cael eu cyflawni unwaith ac am byth yn Iesu, yr un aberth sy'n sylwedd yr holl aberthau, y gwir deml sy'n agor ffordd i bresenoldeb Duw.

Yr hyn sydd ddim yn cael ei ddileu yw'r gyfraith foesol, cyfraith sy'n llifo o gymeriad a chyfiawnder perffaith Duw. Er bod gras yn delio â chondemniad y gyfraith, nid trwydded i anwybyddu'r gyfraith yw hynny, neu i gondemnio'r gyfraith foesol yn hanes. Mae Paul, yn y llythyr at y Rhufeiniaid 6:15, yn gosod hyn allan yn glir, 'A ydym i ymroi i bechu, am nad ydym dan deyrnasiad cyfraith, ond dan deyrnasiad gras? Ddim ar unrhyw gyfrif!' Ac felly Iesu hefyd ar ddechrau'r bregeth ar y mynydd, 'Peidiwch â thybio i mi ddod i ddileu'r Gyfraith na'r proffwydi; ni ddeuthum i ddileu ond i gyflawni. Yn wir, 'rwy'n dweud wrthych, hyd nes i nef a daear ddarfod, ni dderfydd yr un llythyren na'r un manylyn lleiaf o'r Gyfraith nes i'r cwbl ddigwydd' (Mathew 5:17–18).

Yn canlyn hyn, peth arall sydd ddim yn cael ei ddileu na'i newid yw pwy yw Duw. Roedd Abraham am gyffesu rhywbeth sy'n anghyfnewidiol am Dduw. Yng nghyfieithiad Beibl.net o'r cymal yn adnod 25 cawn: 'Onid ydy Barnwr y byd yn gwneud beth sy'n iawn?' Iddo ef, roedd dealltwriaeth o'r Duw sy'n mynd i sicrhau cyfiawnder yn y diwedd yn aneglur, ac i raddau mae hyn yn wir drwy'r Hen Destament. Mae yna awydd i weld yn awr farn gyfiawn, i weld hyn o fewn ffiniau amser. Ond sylwch ar y gwahaniaeth rhwng man cychwyn Abraham a'r hyn rydym ni'n gyfarwydd ag ef. Mae Abraham yn cyffesu pwy yw Duw ac yna'n ceisio deall sut mae hynny i'w weld ar waith mewn byd o amser. Byddwn ni yn aml yn dechrau o le cwbl wahanol, hynny yw, yn gweld beth sy'n digwydd ac yna'n ceisio holi neu ddychmygu sut un yw Duw o'r amgylchiadau hynny. Rhyfedd hynny i Gristnogion, gan fod eu Harglwydd wedi eu dysgu fod rhywbeth yn gyffredin am brofiadau ac amgylchiadau'r cyfiawn a'r anghyfiawn yn y byd yma. (Gweler e.e. Mathew 5:45: 'oherwydd y mae ef yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, ac yn rhoi glaw i'r cyfiawn a'r anghyfiawn.')

Mae Abraham, yn arbennig yng nghyd-destun gweddill pennod 18 ac yn arbennig pennod 19, am wybod i sicrwydd fod ei Dduw, y Duw cyfiawn, yn gweithredu barn gyfiawn. Yn hyn, mae'n cael gwybod mai ewyllys Duw yw cadw pobl, ac yn wir fod presenoldeb ychydig iawn o'i bobl fel halen neu lefain yn medru diogelu hyd yn oed pobl sy'n gwrthod Duw ac yn gwrthryfela yn ei erbyn. Ychydig iawn o halen sydd ei angen i roi blas, i buro. O'r miloedd oedd yn byw ar drefi'r gwastadedd, meddai Duw, 'Ni ddinistriaf hi er mwyn y deg'.

1. 'Cyflawnder datguddiad a gawn yn Iesu, nid datguddiad sy'n gwrth-ddweud yr hyn a ddatguddiwyd eisoes.' Yng ngoleuni'r adnodau o Mathew 13 uchod (yr ail baragraff), trafodwch y gosodiad hwn.
2. O ystyried eich bywyd personol, i ba raddau y byddwch yn anfoddog i dderbyn y bydd Duw yn sicrhau cyfiawnder 'yn y diwedd'?
3. Beth mae'r adnodau hyn yn ei ddweud wrthym am bwysigrwydd yr Eglwys yn y gymuned, y pentref, y dref, y ddinas, y byd?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 11 Mehefin, am 7.30yh**

**Mehefin 11 – Emynwyr Tregaron**
Ryland Teifi sy'n cyflwyno gwledd o ganu mawl o Gapel Bwlchgwynt, Tregaron. Bydd Delyth Hopkins Evans yn arwain emynau gan rai o feirdd a cherddorion y fro. A chawn fwynhau perfformiadau swynol gan ddwy gantores dalentog o Geredigion, Sara Davies a Gwawr Edwards.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 11 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**

Teulu: 1 – Euros Rhys yn cyflwyno'r rhaglen gyntaf mewn cyfres fer am aelodau o'r un teulu sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

**Sul, 11 Mehefin, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Jenny Garrad, Llanidloes

# O'r galon

## Ffydd sydd yn aros

Fuoch chi'n gwersylla mewn pabell erioed? Haf sych '76, bûm yn Llangrannog, a thra oedd y genod yn cael moethusrwydd y cabanau, pebyll cynfas i lawr yr allt oedd ein lloches ni'r bechgyn. Mae gen i atgof cryf sydd o'r siars bob nos gan y 'swogs' i beidio camfihafio, ond yn fwy ar i ni ddiogelu pegiau'r babell cyn noswylio – nid gorchwyl hawdd a'r ddaear mor grimp.

Taswn i'n gofyn i chi ddefnyddio'r hanesyn yma'n eglureb ar gyfer ffydd, be' ddwedech chi?

Y duedd fyddai rhoi'r pwyslais ar y cyfrifoldeb i daro'r hoelion i'r ddaear a thynhau'r llinynnau, neu efallai bwysleisio natur y peg a'i allu i sicrhau'r rheffyn. Ond y gwir yw mai'r hyn sy'n bwysig yw gallu'r ddaear i ddal y bachyn yn ei le!

### *Craig safadwy*

Pan fyddom yn trafod ffydd a'r galon, gallwn geisio cysur, cyngor a chynhaliaeth yng ngwirioneddau ac addewidion y Beibl. Ac mi fynnwn ddweud mai dyma sy'n cyfateb i eiriau'r swogs ers talwm yn ein hatgoffa'n ddyddiol i ddiogelu ein pebyll drwy fwrw'r hoelion yn gadarn bob nos. Rhaid i ni fod â'r gwir dan ein bron, a derbyn adnewyddu ein meddwl ar ei lun a'i ddelw yn y greadigaeth newydd. Os na wnawn hynny, yna fe'n bwrir yma a thraw gan bob ryw don o athrawiaeth, hen neu newydd.

Ond, wyddoch chi, yn y dechrau a hyd y diwedd, mai gallu, rhinwedd a chymeriad rhoddwr yr addewid, y cysur a'r gwirionedd amdano sydd yn hanfodol i'r 'gafael'. Mae llawer atgof gen i, pan oeddwn yn gwersylla, o weld pabell yn cael ei chwipio gan y gwynt a llinynnau'n chwyrlïo a'i phegiau'n dal ynddynt. Heb eu gosod yn gadarn mewn tir cadarn sy'n medru eu dal, nid oes iddynt unrhyw werth ymarferol.

### *Agwedd ddynol a duwiol ar ffydd*

Nid yw ein crefydd felly'n dilyn rhesymeg y byd, sy'n hoff o ddweud fod rhywbeth naill ai'n un peth neu'r llall. Yn hytrach, yn ein dealltwriaeth o'n ffydd, gall dwy agwedd ar yr un peth fod yn wir yr un pryd. Er enghraifft, mae'n rhaid i ni ymateb mewn ffydd i gynnig Iesu o faddeuant a'r bywyd newydd ynddo ef, a'r un pryd rydym yn sylweddoli bod y cyfan oll ohono ef, am na all y meirw wneud dim drostynt eu hunain. Mae'r cyfan o ras, drwy ffydd (Effesiaid 2:1,4–5).

O ran fy nghalon a'm profiad, felly, gallaf ddewis gorffwys yn ei allu rhyfeddol ef ac yng ngwaith gorffenedig Iesu, hyd yn oed pan fo'r noson ar ei duaf a'r amheuon yn gwasgu amdanaf.

Rwyf wedi dysgu trwy brofiad, wedi sawl ergyd drom, nad cadernid fy ngafael yn nharian ffydd sy'n fy niogelu, ond yn hytrach pwy rwyf yn ymddiried ynddo.

### *Yng Nghrist Iesu, yn Nuw, yn yr Ysbryd*

Wedi dweud hyn, efallai mai'r ffordd hawsaf i ddeall hyn yw drwy edrych ar yr ymadrodd fod gennym 'ffydd yn …', hynny yw, rwy'n rhoi fy ffydd, fy ymddiriedaeth, fy hyder, fy oll arno Ef ac *ynddo Ef*. Nid ynof fy hun na gwael bethau ysbeidiol y llawr, ond yng Nghraig yr Oesoedd, y breichiau tragwyddol, y Bugail Da, yr Hollalluog, fy mrawd, y gair yn gnawd a dabernaclodd yn ein plith, yr Un yn Dri a'r Tri yn Un.

Y mae ffydd yn aros am ei bod yn ymddiriedaeth 'ynddo Ef' sy'n tarddu ohono Ef.

### *Y tri hyn, yn aros*

"Er y gellir trechu un, y mae dau yn gallu gwrthsefyll. Ni ellir torri rhaff deircainc ar frys," meddai'r Pregethwr (4:21). Dyma hyfrydwch a chadernid datganiad Paul. Y mae'r tri hyn – ffydd, gobaith a chariad – yn aros am eu bod yn cydio yn ei gilydd. Fe gawn weld y tro nesaf pam y bu iddo ddweud mai'r mwyaf o'r rhai hyn yw 'cariad'. Ond pwyllwch am ennyd, neu am dragwyddoldeb; arhoswch ac ystyriwch sut y mae cariad, gobaith a ffydd yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd ac yn gyd-adeiladol. Bwriwch 'beg' eich ffydd yn y tir cadarn fod y tri yn aros am eu bod ill tri o Dduw.

Ac yna, tynnwch ar raffau ei addewidion.

*Hywel Rhys Edwards*


**CHWARAE A CHREDU (Godly Play)**

**CWRS TRI DIWRNOD CYDNABYDDEDIG**
**gyda Cass Meurig a Diana Williams, Godly Play UK**
**Gorffennaf 13–15 2023**
**Loreto Spirituality Centre, Llandudno LL30 2EL**







**£460 preswyl neu £320 (dibreswyl)**

**admin@godlyplay.uk i sicrhau eich lle**

**Am fwy o wybodaeth:**
www.godlyplay.uk/events/three-day-core-training-llandudno/
**neu ebostiwch cass.meurig@gmail.com**

**Cwrs drwy Saesneg yn bennaf ond gyda chyfle i ddefnyddio cyfieithiadau newydd Cymraeg**



**Through the Roof**

**elusen Gristnogol sy'n hyrwyddo cefnogi cyfleusterau anableddau o fewn yr eglwys**

Cynhelir digwyddiad am ddim –
ABC Anabledd a'r Eglwys

Fe'ch gwahoddir i ddathliad!

Mwynhewch addoliad hygyrch
Clywch straeon ffydd gan bobl leol
Casglwch adnoddau i'ch eglwys

Dydd Sadwrn, 24 Mehefin 2023
am 10am (i ddechrau 10:30am) tan 3:30pm

yn
Highfields Church, Monthermer Road,
Cathays, Caerdydd CF24 4QW

Dilynwch y ddolen isod i gofrestru ar gyfer y digwyddiad neu am fwy o fanylion:

https://throughtheroof.org/2023/05/17/disability-and-the-church-abc-cardiff/

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Galwad i'r holl fyd

### Emyn 593 'Ddiddanydd anfonedig nef'

Arglwydd Iesu, yr hwn a anfonaist dy ddisgyblion i'r holl fyd i dystio i enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, deffra ynom argyhoeddiad cadarn am dy arglwyddiaeth a dyro drachefn i ni lawenydd, ynghyd â'r hyder anorchfygol a ddilynai'r tafod tân.

### Darllen – Salm 33

### Gweddi

Arglwydd, cydnabyddwn ger dy fron nad ydym yn ymateb i'th ysblander mewn modd gweddus. Mud yw ein mawl. Ond heddiw down ger dy fron i'th foliannu, mewn salm, cân a moliant, fel tyrfa'n cadw gŵyl. Yr wyt yn deilwng o bob mawl am dy fod yn eirwir yn dy holl addewidion, yn ffyddlon yn dy holl weithredoedd, yn gyfiawn yn dy farn. Yn y greadigaeth, drwy hanes y byd, ym mywyd cenedlaethau, yr wyt yn gogoneddu dy enw ac yn difetha cyngor balch ein hil. Wrth danio ynom y gân newydd o fawl, caniatâ i'n cenedl annwyl ddysgu o'r newydd, a ninnau hefyd ymhlith ein cyfoedion, beth yw breintiau bod yn genedl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddi. Defnyddia dy ddewis bobl er clod i'th ogoniant tragwyddol. Amen.

### Emyn 255 'Saif brenhiniaeth fawr yr Iesu'

### Darllen – Genesis 12:1–9 'I'r holl fyd'

'Mae pennod 12 yn dilyn pennod 11!' Pwy a wad ddoethineb o'r fath? Ac ni ddeallwn Genesis 12 heb oedi i gofio cyd-destun yr hanes am Dduw yn galw Abram ato'i hun. Gwnaed addewid am fendith i'r hollfyd. O linach Abram y deuai Gwaredwr y byd. Iesu yw cyflawniad yr addewid gynnar hon.

O fwrw trem yn ôl dros lyfr Genesis, gwelwn bortread o fywyd y greadigaeth, ei harddwch ysblennydd a'i gogoniant creedig. Gwelwn wrthryfel yn yr ardd, a bod y ddynoliaeth wedi colli ei hawl i baradwys. Ond hyd yn oed yn y condemniad cyntaf rhoddwyd addewid, sef y deuai Un a fyddai'n sathru pen y sarff ac yn ei orchfygu (Genesis 3:15).

### Addewidion grasol

O hynny allan, fe ellid dadlau, adroddir *hanes* o safle penodol iawn. Canolbwynt hanes, o bersbectif naratif y Beibl, yw fod Gwaredwr, o benodiad ac o ddarpariaeth Duw, ar ddod i'r byd. Bydd ei ddyfodiad yn fendith i bob cenedl, llwyth ac iaith, a hynny drwy ei weithgarwch grasol Ef ei hun.

Beth sy'n arwyddocaol am benodau agoriadol Genesis yw fod gan bob achos neu air o gerydd, neu o gondemniad, addewid rasol gyfatebol. Er i ddrygioni arwain at gondemniad y Dilyw, caiff teulu Noa ei achub. O linach Sem, ymhen y rhawd, byddai Gwaredwr y byd yn dod.

### Cerydd heb ras

Yn Genesis 11 ceir hanes Tŵr Babel. Dyma'r unig dro i gondemniad gael ei gyhoeddi heb fod unrhyw elfen rasol i'w lliniaru!

Beth oedd i gyfrif am hyn?

O fwrw golwg sydyn dros Genesis 11:1–9 deallwn ar unwaith pam fod y condemniad mor llym. Portreadir yno ddynolryw oedd yn ymffrostio mewn unffurfiaeth, yn ymfalchïo yn ei gallu technegol. Mor falch yr oeddynt. Er i'r ddynolryw golli paradwys (Genesis 3), roedd trigolion Sinar yn argyhoeddedig y medrent godi tŵr a'i ben yn ymestyn i'r nefoedd ei hun. Nid oedd trigfa Duw y tu hwnt i'w gallu ac nid oedd atalfa a fedrai rwystro'u cyrhaeddiad. Amcan yr ymdrech oedd diorseddu Duw. Dyma feddylfryd seciwlar go iawn.

Sylfaen dila'r weledigaeth seciwlar oedd ei balchder. 'Adeiladwn *i ni* ddinas' oedd eu cri, 'a gwnawn *inni* enw', meddent. Yn y bwriad seciwlar hwn, nid oedd dim na neb i atal eu delfryd nac i rwystro 'dim o'u bwriadau'. Ni allai ffiniau daearyddol rwystro na chyfyngu ar y ddelfryd. Roedd eu gweledigaeth yn cynnwys sefydlu awdurdod oedd yn ymestyn 'dros yr holl ddaear'.

Ond siomir pob Iwtopia. O dan gondemniad dwyfol o ymffrost bwriadau'r ddynolryw cymysgwyd ieithoedd 'yr *holl fyd*' mewn gwrthgyferbyniad â'r awydd am unffurfiaeth ddiddychymyg trigolion Babel. Gwasgarwyd y felltith dros wyneb '*yr holl ddaear*' (11:9).

### Cenhadaeth Duw

Prin fod unrhyw adran bwysicach na'r adnodau sydd ger ein bron heddiw os ydym i ddechrau cynnig dealltwriaeth gychwynnol, hyd yn oed, o amcan cenhadaeth Duw yn y byd.

### Cenhadaeth – fel galwad ato

Man cychwyn cenhadaeth Duw yn y byd ym mhob oes yw nid yn gymaint yr alwad i 'fynd' ond yn hytrach galwad i ddychwelyd. I ŵr oedd yn addoli'r sêr a'r planedau yn Haran daeth gwahoddiad, daeth galwad, daeth 'lleferydd' Duw 'wrth Abram'. Mewn dull na chaiff ei egluro, 'ymddangosodd yr Arglwydd' i Abram. Ymateb i wahoddiad ac i berthynas â'r Arglwydd a wnaeth Abram. Ond ar sail y gair, yr addewid (fel y cawn weld), ac yntau'n 75 mlwydd oed, yn ŵr cyfoethog a ffyniannus, cymerodd Abram ei gam cyntaf o ffydd. Cododd gan adael ei gartref, ei foethusrwydd, ei ddiogelwch; cefnodd ar ei ymlyniad wrth dduwiau ei fagwraeth ac argyhoeddiadau llywodraethol ei fywyd, ac 'aeth allan o Haran'. Yn y cefnu, daeth addewid am 'wlad a ddangosaf i ti'. Cam cyntaf ffydd yw gollwng. Canlyniad ffydd yw rhodio ac addoli, a 'galw ar enw'r Arglwydd'. Sail ffydd yw argyhoeddiad bod yr Arglwydd yn ffyddlon i'w addewid.

### Cenhadaeth – fel rhannu ym mwriadau Duw

Pan graffwn ar alwad Duw i Abram (i Israel yn ddiweddarach ac i Eglwys Iesu Grist!), nid galwad i gyflawni ein cenhadaeth ni, gyda'n blaenoriaethau ni, na chan bwyso ar ein galluoedd ni, ydyw.

Gwahoddiad i ollwng gafael ar ein blaenoriaethau ydyw; gwahoddiad i rannu, i fod yn rhan, i ganiatáu i Dduw weithio ynom a thrwom yw hanfod pob cenhadaeth. Duw yw'r un sy'n galw ac yn gwahodd, 'Dos'. Ond ef sy'n arwain 'i'r wlad a ddangosaf i ti'. Ymyrraeth Duw, y 'gwnaf' dwyfol sy'n cynnig yr addewid, 'bendithiaf'. Ef yw'r un a ddywedodd 'mawrygaf' ac ef yw'r hwn a addawodd fendithio'r rhai sy'n bendithio'i waith ond yn 'melltithio' y gwrthwynebwyr.

Nid rhywbeth unigolyddol mo'r alwad chwaith. Mae'n alwad ac yn addewid sy'n effeithio ar 'dy dylwyth a'th deulu'; yn wir, mae'n fendith y 'bendithir holl dylwythau'r ddaear' drwy'r gweithgarwch hwn. Ni rwystrir cynlluniau na bwriadau Duw.

I bob cenhedlaeth o'i bobl daw'r alwad, y gwahoddiad, y fendith o gael mentro i rodio gyda'r Arglwydd mewn ffydd, gan wybod y byddwn, drwy ras, yng nghanol ein methiannau a'n ffaeleddau, yn ddefnyddiol yn llaw'r Arglwydd, yn fendith i'n cenhedlaeth, ein cenedl, ein byd.

### Gweddi

Arglwydd, gan ollwng gafael ar yr hyn sydd y tu cefn i ni, caniatâ i ninnau glywed dy lais yn ein galw atat heddiw fel y medrwn fynd yn dy enw i fod yn fendith ym mhob cylch yr ydym yn ymwneud ag ef heddiw. Amen.

### Emyn 113 'Duw Abraham, molwch ef'

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru